

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Troed-y-rhiw /
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Dyddiad yr arolygiad: 18 Medi
2017

Dyddiad cyhoeddi: 19 Rhagfyr
2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	21
4.	Beth nesaf?	24
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	25
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ...	26
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	27
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	30

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Gonestrwydd: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn ei weld
- Cydweithredu: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: rydym yn gweithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gyfatebol

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Troed-y-rhiw yn 4 Bridge Street, Troed-y-rhiw, Merthyr Tudful, CF48 4JX, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, ar 18 Medi 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am y modd yr ydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Canfuwyd gennym yn gyffredinol fod gofal cleifion yn foddhaol.

Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod angen gwelliannau i rai o drefniadau dadheintio'r practis, pecynnau cyffuriau brys, y drefn ar gyfer storio gwybodaeth cleifion, a chadarnhad o statws imiwneiddio Hepatitis B rhai aelodau staff.

Derbyniwyd adborth cadarnhaol gennym gan gleifion ar y gwasanaethau a'r driniaeth a ddarparwyd iddynt.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd yr adborth a dderbyniwyd gennym gan gleifion trwy holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol
- Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan uwch staff y practis

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygiad o asesiadau risg amgylcheddol
- Trefniadau ar gyfer dadheintio offerynnau deintyddol
- Argaeledd pecyn brys llawn mewn achos o ymgwympiad claf
- Dogfennau yn ymwneud ag offer pelydr-X
- Storio gwybodaeth cleifion
- Cyflwyno amrywiaeth o archwiliadau clinigol ac adolygiadau cymheiriaid
- Mae angen i ddeintyddion wella rhai agweddau ar waith cadw cofnodion cleifion
- Cadarnhau o statws imiwneiddio Hepatitis B y staff

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Troed-y-rhiw yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Troed-y-rhiw ym Merthyr Tudful. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Ceir tîm staff yn y practis sy'n cynnwys dau ddeintydd, un therapydd, un hylenydd, pedair nyrs ddeintyddol a derbynnydd.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol y GIG a phreifat.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan fo'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn cael eu trin gydag urddas, parch a charedigrwydd gan dîm y practis. Dywedodd cleifion a ddarparodd sylwadau eu bod yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth yr oeddent wedi ei dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis gennym i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion i ganfod safbwyntiau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 20 o holiaduron. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Rwyf wedi bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth y mae fy mhreactis deintyddol yn ei ddarparu erioed ac mae wedi gwneud cryn argraff arnaf i. Rwyf wedi argymhell y gwasanaeth i ffrindiau a theulu"

"Adeilad mwy taclus a modern, ond mae'r gwasanaeth clinigol a'r staff eraill o'r radd flaenaf"

"Nid oes angen gwella unrhyw beth"

"Cael ystafell ddeintyddol i lawr y grisiau ar gyfer cleifion sy'n anabl"

Cadw'n iach

Canfuwyd gennym fod gan y practis amrywiaeth o daflenni a phosteri gwybodaeth hybu iechyd ar gael yn yr ystafell aros.

Fe'n hysbyswyd gan fwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw am sut i gadw eu cegau a'u dannedd yn iach.

Gwelsom arwyddion 'Dim ysmegu' wedi eu harddangos drwy'r practis, a oedd yn cadarnhau'r pwyslais a oedd yn cael ei roi ar gydymffurfiaid â deddfwriaeth mangreuedd di-fwg.

Gofal ag urddas

Gwelsom y staff yn siarad gyda'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar, barchus a phroffesiynol. Roedd yn ymddangos bod y staff yn dîm cyfeillgar a gwelsom ryngweithio moesgar a chwrtais gyda chleifion. Roedd yr holl gleifion yn cytuno'n ddieithriad eu bod wedi cael eu trin gyda pharch wrth ymweld â'r practis.

Cadarnhaodd y practis eu bod yn gallu cynnig preifatrwydd i gleifion os oeddent ei eisiau, i drafod gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol gyda'r tîm deintyddol i ffwrdd oddi wrth gleifion eraill.

Gwybodaeth cleifion

Roedd y practis yn cynnig amrywiaeth o driniaethau deintyddol preifat a rhai'r GIG. Roedd gwybodaeth am brisiau triniaethau deintyddol preifat ar gael i'w gweld yn yr ystafell aros, yn ogystal â chostau triniaethau deintyddol y GIG. Roedd hyn yn golygu bod gan y cleifion fynediad rhwydd at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth ei gostio.

Dywedodd tua thri chwarter y cleifion a gwblhaodd holiadur fod cost eu triniaeth yn cael ei gwneud yn eglur iddynt bob amser cyn iddynt dderbyn y driniaeth.

Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi derbyn gwybodaeth am eu triniaeth ddeintyddol, gan gynnwys opsiynau triniaeth sydd ar gael. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn gallu gwneud penderfyniad cytbwys am eu triniaeth.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr oeddent yn dymuno mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd nifer o staff yn y practis a oedd yn gallu siarad Cymraeg, ond dywedodd y cleifion hynny a nododd yn yr holiadur cleifion wrthym eu bod yn siarad Cymraeg nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg pan oeddent yn dymuno. Efallai yr hoffai'r practis ystyried sut y gallant amlygu'r gwasanaeth hwn i'w cleifion.

Gofal amserol

Canfuwyd gennym fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oediadau i amseroedd eu hapwyntiadau.

Fe'n hysbyswyd gan fwyafrif llethol y cleifion a gwblhaodd holiaduron eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at ofal deintyddol y tu allan i oriau. Roedd rhif ffôn cyswllt brys i'w ddefnyddio gan gleifion wedi ei ddarparu ar neges peiriant ateb y practis, wedi ei gynnwys yn nhaflen wybodaeth y practis, a hefyd wedi ei arddangos ar ffenestr y practis, fel y gallai cleifion gael gafael ar ofal brys yn ôl yr angen.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd mwyafrif llethol y cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn cyflawni unrhyw driniaeth. Cadarnhaodd sampl o gofnodion cleifion a ystyriwyd yn ystod yr arolygiad y gofynnwyd i gleifion am eu hanesion meddygol cyn triniaeth.

Fodd bynnag, nid oedd cofnodion y cleifion yn darparu tystiolaeth fod cynllunio triniaeth, opsiynau triniaeth na chydsyniad cytbwys yn cael eu derbyn na'u trafod gyda mwyafrif y cleifion. Tynnwyd sylw perchennog y practis at hyn ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael yn adran 'Cadw cofnodion' yr adroddiad.

Hawliau pobl

Roedd y practis wedi ei leoli mewn adeilad dau lawr gyda dwy ystafell driniaeth wedi eu lleoli ar y llawr cyntaf y gellir eu cyrraedd trwy ddringo grisiau. Roedd y practis yn ei gwneud yn eglur yn ei daflen wybodaeth na fyddai'n gallu darparu gwasanaethau deintyddol i gleifion nad ydynt yn gallu defnyddio grisiau.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwynion ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion am sut i godi pryder (cwyn) wedi ei harddangos yn ardal y dderbynfa ac wedi ei chynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Roedd angen i'r practis ddiweddarau'r weithdrefn i gynnwys manylion cyswllt AGIC, sy'n ofyniad rheoleiddiol ar gyfer cwynion preifat. Efallai yr hoffai'r practis hefyd ystyried sut y gall wneud mwy o gleifion yn ymwybodol o'r broses. Mae hyn oherwydd i tua hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur ddweud wrthym nad oeddent yn gwybod sut i godi pryder neu gŵyn am y gwasanaethau a dderbynnir yn y practis.

Canfuwyd gennym fod y practis yn cynnal cofnod o gwynion a dderbynnir, ac yn cynnwys y camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau.

Gwelsom fod y practis yn gofyn i gleifion gwblhau holiaduron er mwyn gallu derbyn adborth ar y gwasanaethau a ddarparwyd. Argymhellwyd gennym efallai yr hoffai'r practis ystyried ffordd i gleifion allu darparu adborth ar sail ad-hoc ac yn ddienw. Cytunodd y practis i ystyried gwneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis gynnwys y manylion cyswllt ar gyfer AGIC yn ei weithdrefn gwynion.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuwyd gennym fod angen i'r practis adolygu ei asesiadau risg amgylcheddol i sicrhau bod yr adeilad yn rhydd o beryglon.

Roedd angen gwelliannau o ran rhai trefniadau dadheintio.

Roedd angen gwneud pecyn brys a chymorth cyntaf llawn ar gael at ddefnydd cleifion a staff.

Nodwyd gennym fod angen i'r practis gyflwyno proses ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol ac adolygiadau gan gymheiriaid.

Roedd angen gwella'r drefn ar gyfer storio rhai cofnodion cleifion i ddiogelu gwybodaeth bersonol a chyfrinachol.

Nodwyd gennym fod angen gwelliant o ran agweddau ar waith cadw cofnodion y deintyddion i gydymffurfio'n llawn â safonau clinigol ar gyfer cadw cofnodion.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Canfuwyd gennym yn gyffredinol fod gan y practis y rhan fwyaf o'r trefniadau gofynnol ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant staff sy'n gweithio yn y practis a phobl sy'n ymweld.

Gwelsom yn ystod taith gerdded o gwmpas yr adeilad fod pob man yn lân ac yn daclus. Oherwydd oedran, maint a chynllun yr adeilad, roedd manau storio yn brin ac roedd rhai manau yn ymddangos fel peryglon posibl i'r rheini sy'n gweithio yn y practis a phobl sy'n ymweld. Canfuwyd gennym fod angen gwneud gwelliannau i fan storio allanol lle cadwyd toddiannau datblygu delweddau pelydr-X a hen dun nwy. Argymhellwyd gennym hefyd lle gellid

gwneud gwelliannau i gegin y staff, a oedd hefyd yn cael ei defnyddio i ddatblygu delweddau pelydr-X a storio cywasgydd y practis.

Argymhellwyd gennym y dylai'r practis adolygu ei asesiadau risg amgylcheddol i sicrhau bod pob risg wedi cael ei nodi a'i rheoli'n briodol. Cytunodd perchennog y practis i hyn.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o gwmpas y practis a gwelsom fod hyn wedi cael eu harchwilio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio'n iawn.

Roedd profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal ar offer trydanol yn y practis yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er mwyn helpu i sicrhau bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio.

Canfuwyd gennym fod y dystysgrif cynnal a chadw ar y bwiler nwy ar y safle heibio ei dyddiad terfyn. Cytunodd perchennog y practis i drefnu archwiliad i sicrhau bod y bwiler yn gweithio'n ddiogel.

Gwelsom fod gan y practis rai trefniadau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod y gwastraff mwyaf peryglus yn cael ei storio'n ddiogel cyn iddo gael ei gasglu gan y cwmni contractwyr. Canfuwyd gennym fod cynwysyddion o doddydd datblygu delweddau pelydr-X wedi ei ddefnyddio yn cael eu storio mewn sied agored mewn iard gefn wedi ei chloi y tu allan i'r practis cyn cael eu casglu. Er i ni weld tystiolaeth fod trefniadau priodol ar waith i'r rhain gael eu casglu, nid oeddent wedi cael eu casglu ers nifer o fisoedd. Argymhellwyd gennym fod y practis yn gwneud trefniadau priodol i'r cwmni contractwyr gasglu'r deunydd hwn fel y cytunwyd. Roedd gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff cartref) yn cael ei gasglu trwy drefniadau gyda'r cyngor lleol.

Nid oedd perchennog y practis yn gallu cadarnhau a oedd offer gwahanu amalgam wedi eu gosod fel y gellid tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) o lenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch y mater hwn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Roedd hyn yn golygu yr ysgrifennwyd at y practis yn syth ar ôl yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol i gamau unioni brys gael eu cymryd. Darperir manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B. Cadarnhaodd perchennog y practis, yn unol â'r amserlenni a gytunwyd, fod offer gwahanu priodol wedi eu gosod i gael gwared ar amalgam yn ddiogel.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis ofyn am gyngor gan unigolion â chymwysterau priodol i hybu iechyd a diogelwch a lles staff a chleifion yng nghyswllt y canlynol:

- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod trefniadau priodol a diogel yn cael eu gwneud ar gyfer storio toddydd datblygu delweddau pelydr-X wedi ei ddefnyddio a thuniau nwy
- Dylai'r practis adolygu ei ddogfen asesu risg amgylcheddol
- Dylai'r practis sicrhau bod dyfeisiau nwy yn cael eu cynnal a'u cadw'n flynyddol
- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod toddydd datblygu delweddau pelydr-X wedi ei ddefnyddio yn cael ei gasglu yn unol â'r cytundeb gyda'r cwmni contractwyr

Atal a rheoli heintiau

Nid oedd ystafell ddadheintio ddynodedig yn y practis, fel yr argymhellir yn nogfen ganllaw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1).¹ Roedd offer yn cael eu dadheintio a'u sterileiddio yn yr ystafelloedd triniaeth. Roedd gan y practis ddefnydd o ddiheintydd golchi i lanhau offerynnau deintyddol cyn eu sterileiddio. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd nad oedd y practis yn gallu trefnu archwiliadau o'r peiriannau oherwydd eu hoedran. Cytunodd perchennog y practis ar ddiwrnod yr arolygiad i beidio â defnyddio'r diheintyddion golchi gan nad oedd yn gallu profi eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Dangoswyd proses glanhau â llaw gan y staff a gwnaed rhai argymhellion gennym i sicrhau cydymffurfiaid â WHTM 01-05, sef monitro tymheredd y dŵr a

¹ Mae dogfen [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru \(WHTM 01-05\) \(Diwygiad 1\)](#) yn cynnig canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

faint o hylif glanhau sydd ei angen yn unol ag argymhellion y gweithgynhyrchydd. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Nid oeddem yn gallu gweld tystysgrifau cyfredol yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant ar ddadheintio. Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant priodol yn unol ag argymhellion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Roedd gan y practis ddefnydd o ddau beiriant awtoclaf² ar gyfer sterileiddio offerynnau deintyddol. Gwelsom dystysgrifau arolygu ar gyfer y ddau beiriant i ddangos eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Er i ni weld bod rhai archwiliadau beunyddiol yn cael eu cynnal ar y ddau beiriant awtoclaf a chofnodion yn cael eu cynnal, nid oedd yr holl archwiliadau a argymhellir gan WHTM 01-05, o brofion ar offer sterileiddio ar ddechrau'r diwrnod, yn cael eu cwblhau.

Roedd opsiwn ar un peiriant awtoclaf o ddefnyddio argraffydd awtomatig i gofnodi pob cylch a broseswyd, ond nid oedd y practis yn defnyddio'r dull hwn. Nid oedd y practis yn gallu dangos felly bod unrhyw gylch arall, ac eithrio ar ddechrau pob sesiwn ddeintyddol (bore a phrynhawn), wedi cyrraedd y paramedrau priodol i sicrhau bod sterileiddio effeithiol wedi digwydd.

Roedd gwaith glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol yn cael ei wneud yn y ddwy ystafell driniaeth. Nid oedd modd defnyddio un o'r peiriannau awtoclaf ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd hyn yn golygu bod angen glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol yn yr ystafell driniaeth ddeintyddol arall. Nid oedd gan y practis gynwysyddion glân a budr priodol ar gael i gludo'r offerynnau'n ddiogel rhwng yr ystafelloedd triniaeth.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch y materion a nodir uchod o dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Darperir manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B. Cadarnhaodd perchennog y practis, yn unol â'r amserlenni a gytunwyd, fod camau priodol wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.

² Siambr pwysedd a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy eu hamlygu i ager dirlawn pwysedd uchel yw peiriant awtoclaf.

Edrychwyd ar yr holl gyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) yn y practis. Canfuwyd gennym fod bylchau rhwng lloriau a waliau'r ddwy ystafell driniaeth, gan ganiatáu o bosibl i llwch a sbwriel gasglu. Argymhellwyd gennym y dylai'r practis ystyried newid y llawr neu wneud trefniadau priodol ar gyfer selio'r manau a nodwyd yn ystod yr arolygiad. Cytunodd perchennog y practis i wneud hyn.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar i nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu yn rhan o'r gweithgarwch monitro sicrwydd ansawdd cyffredinol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod ei broses lanhau â llaw yn cyd-fynd â'r canllawiau yn WHTM 01-05.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant dadheintio yn unol ag argymhellion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y llawr yn cael ei selio'n briodol i atal dŵr, llwch a sbwriel rhag casglu yn y rhannau o loriau'r ystafelloedd triniaeth nad ydynt wedi'u selio.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis gyffuriau ac offer ar gael i'w defnyddio mewn achos o argyfwng claf (ymgwympiad). Fodd bynnag, canfuwyd gennym nad oedd y pecyn yn gyflawn gan fod un cyffur, glwcagon, wedi mynd heibio ei ddyddiad terfyn. Roedd y practis yn gallu dangos bod hyn wedi cael ei nodi cyn yr arolygiad trwy archwiliadau rheolaidd o'r cyffuriau ac offer brys, ond nid oedd un newydd wedi cael ei archebu eto am i'r practis ein hysbysu eu bod wedi cael eu cynghori nad oedd yn angenrheidiol.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch y mater hwn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Darperir manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B. Cadarnhaodd perchennog y practis, yn unol â'r amserlenni a gytunwyd, fod camau priodol wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Canfuwyd gennym fod rhywfaint o gynnwys y pecyn cymorth cyntaf wedi mynd heibio ei ddyddiad terfyn. Argymhellwyd gennym y dylai'r practis ddisodli'r cynnwys sydd wedi mynd heibio ei ddyddiad terfyn a chynnwys y pecyn

cymorth cyntaf yn rhan o'i archwiliadau rheolaidd. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Gwelsom gofnodion i ddangos bod mwyafrif y staff wedi cwblhau hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nid oedd un dystysgrif ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad, ond fe'i hanfonwyd i AGIC y diwrnod canlynol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis ddisodli cynnwys y pecyn cymorth cyntaf sydd wedi mynd heibio ei ddyddiad terfyn a gwneud trefniadau priodol i sicrhau bod offer cymorth cyntaf ar gael ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith i hybu ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Argymhellwyd gennym y dylai'r practis ddiweddarau'r polisi i gynnwys y manylion cyswllt ar gyfer timau diogelu plant ac oedolion y cyngor lleol er hwylustod cyfeirio mewn achos o angen. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Cadarnhaodd perchennog y practis fod yr holl staff priodol wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion ond, er i ni weld dystysgrifau ar ddiwrnod yr arolygiad yn cadarnhau bod mwyafrif y staff wedi derbyn yr hyfforddiant hwn, nid oeddem yn gallu gweld dystysgrif ar gyfer un aelod o'r tîm. Anfonwyd y dystysgrif hon at AGIC y diwrnod canlynol. Argymhellwyd gennym fod y practis yn sicrhau ei fod yn cael gafael ar yr holl ardystiad hyfforddiant priodol ac yn ei gadw i brofi bod yr hyfforddiant hwn wedi cael ei gyflawni. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Gwelsom fod gan y practis bolisi chwythu'r chwiban ar waith a chadarnhaodd y staff i ni siarad â nhw eu bod yn teimlo y gallent godi unrhyw bryderon yn gysylltiedig â gwaith y gallai fod ganddynt gyda staff uwch y practis, ac roeddent yn hyderus y byddai camau'n cael eu cymryd yn eu sgil.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis ddiweddarau'r polisi diogelu oedolion a phlant i gynnwys y manylion cyswllt ar gyfer timau diogelu'r cyngor lleol.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd y practis yn gallu darparu tystysgrifau cynnal a chadw priodol ar gyfer yr offer pelydr-X a oedd yn cael eu defnyddio. Roedd y practis yn gallu anfon tystysgrifau priodol ar gyfer un peiriant pelydr-X y diwrnod canlynol. Cadarnhaodd perchennog y practis fod y peiriant pelydr-X arall wedi cael ei gynnal a'i gadw'n brydlon, ond nid oedd yn gallu dod o hyd i'r dystysgrif. Cadarnhaodd perchennog y practis fod archwiliad newydd wedi cael ei drefnu ar gyfer 26 Medi 2017.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant yn dangos bod yr holl staff yn gyfredol o ran eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio ac yn bodloni canllawiau a gyflwynwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Gwelsom fod archwiliadau ansawdd delweddau pelydr-X wedi cael eu cynnal yn rheolaidd yn rhan o'r gweithgarwch monitro sicrwydd ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl gyda'r broses o gynnal archwiliadau pelydr-X ac yn dynodi lle dylid gwneud gwelliannau os yw'n ofynnol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod dogfennau cynnal a chadw ar gyfer yr offer pelydr-X yn cael eu cadw ac ar gael i'w harchwilio gan AGIC.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Er i ni weld tystiolaeth fod y practis wedi cynnal archwiliad o'i drefniadau dadheintio yn ddiweddar ac yn cynnal archwiliadau pelydr-X, ni welsom fod gan y practis raglen ar waith ar gyfer ymgymryd ag amrywiaeth eang o archwiliadau clinigol gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella. Trafodwyd hyn gyda pherchennog y practis ac argymhellwyd y dylai ystyried cyflwyno rhaglen o archwiliadau ar draws y flwyddyn. Cytunodd perchennog y practis i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis gyflwyno amrywiaeth o archwiliadau clinigol gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella yn rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Dylid datblygu a monitro cynlluniau gwella fel sy'n briodol.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesedd

Nid oedd y practis yn cynnal unrhyw fath o adolygiadau gan gymheiriaid. Roedd hyn yn peri risg bosibl o'r deintyddion yn ymarfer ar wahân yn glinigol.³ Argymhellwyd i'r practis y dylent gyflwyno proses ar gyfer adolygu gan gymheiriaid fel ffordd o nodi meysydd i wella arfer, a chytunasant i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis gyflwyno proses ar gyfer cynnal adolygiadau clinigol gan gymheiriaid.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg gyfathrebu

Roedd cofnodion cleifion ar bapur ac wedi eu storio mewn cypyrddau ffeilio y tu ôl i'r dderbynfa. Canfuwyd gennym nad oedd rhai trefniadau ar gyfer storio cofnodion papur cleifion ac argraffau (modelau) cleifion wedi eu storio'n ddiogel.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch storio gwybodaeth cleifion yn ddiogel o dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Darperir manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B. Cadarnhaodd perchennog y practis, yn unol â'r amserlenni a gytunwyd, y byddai camau priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon.

Cadw cofnodion

Ystyriwyd sampl o gofnodion deintyddol cleifion gennym i asesu ansawdd y broses cadw cofnodion. Canfuwyd gennym fod meysydd i'w gwella i sicrhau bod cofnodion cleifion yn ddigon manwl yn gyson. Dyma nhw:

- Nid oedd defnydd cleifion o alcohol a thybaco wedi cael ei nodi gan y deintyddion bob amser, ynghyd ag unrhyw gyngor hybu iechyd a ddarparwyd. Cadarnhaodd perchennog y practis fod hwn yn gwestiwn a ofynnir yn y ffurflen hanes meddygol. Canfuwyd adrodd anghyson o'r meinweoedd meddal ar ddechrau pob cwrs o driniaeth.

³ Gweithio ar wahân i glinigwyr eraill.

Byddai hyn yn dangos bod y deintyddion wedi asesu'r cleifion ar gyfer eu perygl o ddatblygu canser y geg a darparu cyngor ar sut y gellid lleihau'r perygl hwn.

- Mae'n rhaid cofnodi cydsyniad cleifion i driniaeth ym mhob apwyntiad.
- Nid oedd gwaith cynllunio triniaeth, esboniad o opsiynau triniaeth a ddarparwyd i gleifion, a thriniaeth a roddwyd wedi eu cofnodi'n gyson yn y cofnodion.
- Nid oedd cadarnhad a chanlyniadau Archwiliadau Peridontol Sylfaenol wedi eu cofnodi'n gyson.

Trafodwyd y canfyddiadau gyda pherchennog y practis yn fanwl ac argymhellwyd gennym y dylai gyflwyno archwiliad o gardiau cofnodion cleifion i wella cysondeb ac ansawdd y broses o gadw cofnodion cleifion. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Hefyd, nid oedd y rheswm am gynnal archwiliadau pelydr-X a chanfyddiadau'r deintyddion ohonynt wedi cael eu cofnodi bob amser, gan raddio eu hansawdd fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau eu bod yn cofnodi'r cyfiawnhad am gynnal archwiliadau pelydr-X a'u canfyddiadau fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Un deintydd oedd yn berchen ar y practis, wedi ei gynorthwyo gan dîm bach o staff clinigol ac anghlinigol. Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiâu ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd angen diweddarau rhai polisiâu.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan holl staff y practis. Dywedasant wrthym hefyd fod ganddynt gyfleoedd i fynychu unrhyw hyfforddiant perthnasol.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod cadarnhad o imiwneiddiad y staff yn erbyn Hepatitis B yn eglur, gan gadw dogfennau priodol.

Dylai'r practis wneud trefniadau i sicrhau bod copïau o dystysgrifau hyfforddiant ar gyfer yr holl staff clinigol ar gael i'w harchwilio gan AGIC.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Un deintydd oedd yn berchen ar y practis, wedi ei gynorthwyo gan dîm bach o staff clinigol ac anghlinigol. Roedd y gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd yn cael ei wneud gan berchennog y practis. Pan nodwyd meysydd i'w gwella gennym, dangosodd y deintydd ymrwymiad i fynd i'r afael â'r rhain yn gyflym. Ymdriniwyd â meysydd yr oedd angen eu gwella ar unwaith gan berchennog y practis yn unol â'r amserlenni a gytunwyd.

O ystyried nifer y pryderon uniongyrchol a godwyd ar ddiwrnod yr arolygiad, nodwyd gennym fod angen gwelliant i drefniadau llywodraethu'r practis er mwyn sicrhau bod dogfennau staff, archwiliadau offer, asesiadau risg amgylcheddol a chofnodion hyfforddiant staff yn gyfredol ac yn cael eu cynnal yn briodol.

Dywedodd y staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo yn eu swyddi gan holl aelodau tîm y practis. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebiad o fewn y practis yn dda. Canfuwyd gennym fod y tîm bach yn cynnal cyfarfodydd anffurfiol yn rheolaidd a, phan fo'n briodol, byddai'r practis yn cymryd cofnodion y cyfarfodydd.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith â'r nod o sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion, ac roedd angen diweddarau rhai ohonynt.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau yn berthnasol i'w swyddi. Fodd bynnag, canfuwyd gennym nad oedd rhai tystysgrifau hyfforddiant, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad. Argymhellwyd gennym fod y practis yn sicrhau ei fod yn cadw'r holl dystysgrifau hyfforddiant priodol i brofi bod hyfforddiant wedi cael ei gyflawni. Cadarnhaodd y staff hefyd eu bod yn cael eu cynorthwyo a'u hannog gan berchennog y practis i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

Canfuwyd gennym fod y deintyddion a'r staff nyrsio wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i ymarfer ac roedd ganddynt yswiriant indemniad ar waith.

Roedd cofnodion ar gael i ddangos bod mwyafrif y staff wedi derbyn imiwneiddiad yn erbyn Hepatitis B i amddiffyn cleifion a'u hunain rhag haint. Fodd bynnag, roedd cofnodion ar gyfer dau aelod o staff yn aneglur iawn, sy'n golygu nad oedd y practis yn gallu cadarnhau eu statws imiwneiddiad yn gadarnhaol.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch imiwneiddiad staff yn erbyn Hepatitis B o dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Darperir manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B. Cadarnhaodd perchennog y practis, yn unol â'r amserlenni a gytunwyd, fod camau priodol wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon.

Roedd y deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat. Dim ond un dystysgrif cofrestriad ag AGIC yr oeddem yn gallu ei gweld wedi ei harddangos fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Argymhellwyd gennym fod y ddwy dystysgrif yn cael eu harddangos mewn man amlwg.

Gwelsom dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y deintyddion sy'n gweithio yn y practis fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau ei fod yn cael gfael ar yr holl dystysgrifau hyfforddiant priodol ar gyfer yr holl staff a'u cadw i brofi bod yr hyfforddiant wedi cael ei gyflawni a'u gwneud ar gael i'w harchwilio.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau, maent wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bo'n berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diogelwch cleifion lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn ein hysbysu o'r camau gweithredu brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau o bractisau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn cael hyd at ddeuddeg wythnos o rybudd o arolygiad. Mae hyn fel y gellir gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn ôl yr arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu ar gleifion cyn lleied â phosibl.

Caiff adborth ei wneud ar gael i gynrychiolwyr practisau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn archwilio sut y mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi ei gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Pan fo'n briodol, rydym yn ystyried sut y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydriadau Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill fel [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg o'r safonau gofal mewn practisau deintyddol.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y claf	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Cadarnhaodd perchennog y practis eu bod wedi bod yn defnyddio diheintydd golchi cyn sterileiddio offerynnau deintyddol. Oherwydd oedran y diheintydd golchi, nid oedd y practis wedi gallu archwilio'r peiriant i ganfod a oedd yn addas i'w ddefnyddio.</p>	<p>Heb archwiliad a chynnal a chadw priodol, nid oedd y practis yn gallu cadarnhau bod y diheintydd golchi yn ddiogel i'w ddefnyddio.</p>	<p>Codwyd y pryder yn uniongyrchol gyda perchennog y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.</p>	<p>Cytunodd perchennog y practis i roi'r gorau i ddefnyddio'r diheintydd golchi ar unwaith.</p>

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Troed-y-rhiw

Dyddiad yr arolygiad: 18 Medi 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Gwelliant uniongyrchol sydd ei angen	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i berchennog y practis sicrhau bod offer priodol ar gael i dynnu amalgam o ddŵr gwastraff yn ddiogel.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Gallaf gadarnhau bod gwahanwr amalgam yn bresennol yn y practis nesaf at y pwmp sugno (cadarnhawyd hyn yn dilyn ymweliad gan ein peiriannydd offer â'r practis ddydd Mawrth 19 Medi). Caiff y gwahanwr amalgam ei fonitro gan y peiriannydd yn ystod ymweliadau rheolaidd a chaiff ei newid am un newydd pan fydd yn llawn (bob 3–4 blynedd).	Lowri Leeke	Cwblhawyd eisoes
Mae'n rhaid i berchennog y practis sicrhau bod yr holl archwiliadau perthnasol yn cael eu	2.4 Atal a rheoli heintiau a	Prynwyd cofnodwr data ar gyfer y peiriant awtoclaf nad oes un wedi ei	Lowri Leeke	1 wythnos

Gwelliant uniongyrchol sydd ei angen	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>cynnal a'u cofnodi ar y peiriannau awtoclaf sy'n cael eu defnyddio yn y practis fel yr argymhellir gan WHTM 01-05.</p> <p>Mae'n rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau priodol i ddangos bod pob cylch sy'n cael ei brosesu drwy'r peiriant awtoclaf yn cael ei wirio a'i gofnodi'n briodol i sicrhau ei fod wedi cyrraedd y paramedrau perthnasol ar gyfer sterileiddio offerynnau deintyddol yn effeithiol.</p> <p>Mae'n rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau priodol ar gyfer cludo offerynnau deintyddol budr a glân rhwng ystafelloedd triniaeth.</p>	dadheintio	<p>osod arno eisoes, a disgwylir iddo gael ei osod gan ein peiriannydd yr wythnos nesaf.</p> <p>Prynwyd llyfr cofnodi profion ar ddiwrnod yr arolygiad gan Isopharm (fel yr argymhellwyd gan ein harolygwyr) ac mae eisoes yn cael ei ddefnyddio ar gyfer archwiliadau beunyddiol ac wythnosol.</p> <p>Prynwyd bocsys â chaeadau clipio i sicrhau bod offerynnau'n cael eu cludo'n ddiogel rhwng ystafelloedd triniaeth os oes angen gwneud hynny.</p>		<p>Cwblhawyd eisoes</p> <p>Cwblhawyd eisoes</p>
<p>Mae'n rhaid i berchennog y practis sicrhau bod pecyn brys llawn ar gael i'w ddefnyddio rhag ofn y bydd achos o ymgwmpiad claf.</p>	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Archebwyd swp newydd o glwcagon ar ddiwrnod yr arolygiad ac fe'i danfonwyd i'r practis ar 19 Medi.	Lowri Leeke	Cwblhawyd eisoes
<p>Mae'n rhaid i berchennog y practis sicrhau</p>	3.4 Llywodraethu gwybodaeth a	Cloeon i gael eu gosod ar y	Lowri Leeke	2 wythnos

Gwelliant uniongyrchol sydd ei angen	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
bod lle storio priodol ar gael ar gyfer yr holl wybodaeth cleifion er mwyn atal mynediad heb awdurdod.	thechnoleg gyfathrebu	cwpwrdd yn yr ystafell aros. Cloeon i gael eu gosod ar y cypyrddau ffeilio na ellir eu cloi hefyd. Mae'r practis wrthi'n adleoli a bydd cypyrddau ffeilio newydd yn cael eu prynu yn ystod y broses adleoli.		
Mae'n rhaid i berchennog y practis sicrhau bod yr holl staff wedi'u himiwneiddio yn erbyn Hepatitis B a bod ganddynt gofnodion priodol i ddangos hyn.	7.1 Gweithlu	Trefnodd y ddau aelod o staff nad oedd ganddynt gadarnhad o'u statws Hep B apwyntiadau gyda gweithwyr iechyd galwedigaethol yn ystod yr wythnos yn dilyn yr arolygiad er mwyn cael gwirio eu statws.	Lowri Leeke	1 wythnos

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Lowri Leeke

Swydd: Prif ddeintydd a pherchennog y practis

Dyddiad: 24/09/2017

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Troed-y-rhiw

Dyddiad yr arolygiad: 18 Medi 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r practis gynnwys y manylion cyswllt ar gyfer AGIC yn ei weithdrefn gwynion.	6.3 Gwrando ar adborth a dysgu ohono	Mae ein gweithdrefn gwynion yn cynnwys y manylion cyswllt llawn ar gyfer AGIC erbyn hyn.	Lowri Leeke	Cwblhawyd eisoes
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Dylai'r practis ofyn am gyngor gan unigolion â chymwysterau priodol i hybu iechyd a diogelwch a lles staff a chleifion yng nghyswllt y canlynol: <ul style="list-style-type: none">Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Er gwaethaf y ffaith fod y toddydd datblygu delweddu pelydr-X wedi ei ddefnyddio a'r tuniau nwy wedi eu storio mewn sied allanol, mae'r iard gefn yn gwbl ddiogel â chlwyd wedi ei chloi.	Lowri Leeke	3 mis

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>trefniadau priodol a diogel yn cael eu gwneud ar gyfer storio toddydd datblygu delweddau pelydr-X wedi ei ddefnyddio a thuniau nwy</p>		<p>Mae cynlluniau ar waith i adleoli'r practis yn ystod y misoedd nesaf ac felly bydd gennym gyfleusterau storio mwy priodol ar gael. Yn y cyfamser, bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i gael gwared ar eitemau sydd wedi eu defnyddio yn gynt. Cysylltwyd â'n contractwr gwastraff ar gyfer casgliad mwy rheolaidd a chafwyd gwared ar y tuniau nwy.</p>		
<ul style="list-style-type: none"> Dylai'r practis adolygu ei ddogfen asesu risg amgylcheddol 		<p>Bydd ein dogfen asesu risg amgylcheddol yn cael ei hadolygu a'i diweddarau.</p>	Lowri Leeke	2 fis
<ul style="list-style-type: none"> Dylai'r practis sicrhau bod dyfeisiau nwy yn cael eu cynnal a'u cadw'n flynyddol 		<p>Cynhaliwyd archwiliadau o'r dyfeisiau nwy ar 17 Hydref 2017. Canfuwyd fod popeth yn foddhaol.</p>	Lowri Leeke	1 wythnos
<ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod toddydd datblygu delweddau pelydr-X wedi ei ddefnyddio yn cael ei gasglu yn unol â'r cytundeb gyda'r cwmni contractwyr 		<p>Cysylltwyd â'n contractwr casglu gwastraff (PHS) ar gyfer casgliad mwy rheolaidd o doddydd datblygu delweddau pelydr-X wedi ei ddefnyddio, gyda chasgliadau misol wedi eu trefnu yn hytrach na chasgliadau chwe misol</p>	Lowri Leeke	1 mis

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		erbyn hyn.		
Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod ei broses glanhau â llaw yn cyd-fynd â'r canllawiau yn WHTM 01-05.	2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Bydd ein polisi glanhau â llaw yn cael ei ddiweddarau yn unol â WHTM 01-05. Rydym eisoes yn defnyddio'r swm cywir o hylif glanhau yn unol ag argymhellion y gweithgynhyrchydd. Prynwyd thermomedrau i sicrhau bod y tymheredd yn aros yn sefydlog drwy'r broses lanhau.	Lowri Leeke a'r holl bersonél nysio (Tracey Small, Danila Wilkins, Chrissy Jones a Sara Beynon)	2 wythnos
Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant dadheintio yn unol ag argymhellion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.		Trefnwyd i'r holl aelodau staff nad ydynt wedi cyflawni hyfforddiant dadheintio diweddar i fynd ar gwrs dadheintio ar 11 Rhagfyr 2017.	Danila Wilkins, Sara Beynon, Julie Gillard, Tracey Small	3 mis
Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y llawr yn cael ei selio'n briodol i atal dŵr, llwch a sbwriel rhag casglu yn y rhannau o loriau'r ystafelloedd triniaeth nad ydynt wedi'u selio.		Mae'r practis yn adleoli yn ystod y chwe mis nesaf, felly ni ellir cyfiawnhau gosod unrhyw loriau newydd. Yn y cyfamser, fodd bynnag, bydd lloriau'r ystafelloedd triniaeth yn cael eu selio cystal â phosibl.	Lowri Leeke	2 fis
Mae'n rhaid i'r practis ddisodli cynnwys y pecyn cymorth cyntaf sydd wedi mynd heibio ei ddyddiad terfyn a gwneud trefniadau priodol i	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Prynwyd pecyn cymorth cyntaf newydd ac mae ar gael i'w ddefnyddio.	Lowri Leeke	Cwblhawyd eisoes

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
sicrhau bod offer cymorth cyntaf ar gael ac yn ddiogel i'w defnyddio.				
Dylai'r practis ddiweddarau'r polisi diogelu oedolion a phlant i gynnwys y manylion cyswllt ar gyfer timau diogelu'r cyngor lleol.	2.7 Diogelu plant ac oedolion mewn perygl	Bydd ein polisi diogelu oedolion a phlant yn cael ei ddiweddarau i gynnwys manylion cyswllt llawn ar gyfer timau diogelu'r cyngor lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful).	Lowri Leeke	1 mis
Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod dogfennau cynnal a chadw ar gyfer yr offer pelydr-X yn cael eu cadw ac ar gael i'w harchwilio gan AGIC.	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Cynhaliwyd archwiliad o'r peiriant pelydr-X heb unrhyw ddogfen arolygu ar gael ar 26 Medi 2019, ac ni chanfuwyd unrhyw ddiffygion gyda'r peiriant yn gweithio'n iawn. Bydd y practis yn cadw'r holl ddogfennau.	Lowri Leeke	6 mis
Dylai'r practis gyflwyno amrywiaeth o archwiliadau clinigol gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella yn rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Dylid datblygu a monitro cynlluniau gwella fel sy'n briodol.	3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol	Trefnwyd proses o archwiliadau a bydd yn cael ei chyflwyno. Bydd yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal yn rheolaidd.	Lowri Leeke	6 mis
Dylai'r practis gyflwyno proses ar gyfer cynnal adolygiadau clinigol gan gymheiriaid.	3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesedd	Yn dilyn cyfarfod gyda'r holl ddeintyddion, bydd systemau'n cael eu cyflwyno ar gyfer adolygiadau clinigol gan gymheiriaid. Gwnaed cais i Adran	Lowri Leeke	3 mis

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Ôl-raddedig Prifysgol Caerdydd am hyfforddiant Matrics Aeddfedrwydd.		
Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.	3.5 Cadw cofnodion	Mabwysiadwyd hyn ar unwaith. Yn dilyn cyfarfod, rydym wedi trafod pwysigrwydd hyn gyda'r deintyddion nad oeddent yn ei wneud eisoes. Caiff yr holl opsiynau triniaeth a thrafodaethau eu cofnodi yn nodiadau cleifion erbyn hyn.	Lowri Leeke a Geraint Morgan	Ar unwaith
Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau eu bod yn cofnodi'r cyfiawnhad am gynnal archwiliadau pelydr-X a'u canfyddiadau fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.		Mabwysiadwyd hyn ar unwaith. Yn dilyn cyfarfod, rydym wedi trafod pwysigrwydd hyn gyda'r deintyddion nad oedd yn ei wneud eisoes. Caiff pob cyfiawnhad a chanfyddiadau archwiliadau pelydr-X eu cofnodi yn nodiadau cleifion erbyn hyn.	Lowri Leeke a Geraint Morgan	Ar unwaith
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dylai'r practis sicrhau ei fod yn cael gafael ar yr holl dystysgrifau hyfforddiant priodol ar gyfer yr holl staff a'u cadw i brofi bod yr hyfforddiant wedi cael ei gyflawni a'u gwneud ar gael i'w harchwilio.	7.1 Gweithlu	Roedd y rhan fwyaf o dystysgrifau ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae unrhyw dystysgrifau nad oeddent ar gael yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad wedi cael eu casglu a	Lowri Leeke	Cwblhawyd eisoes

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		chadwyd cofnodion.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Lowri Leeke

Swydd: Pennaeth y practis

Dyddiad: 17/10/2017